General Osteopathic Council

# Cais i Gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif Adnabod Myfyriwr y Cyngor | |

## A3 Deddf Osteopathiaid 1993 Rheol 4 y Rheolau (Cais am Gofrestru a Ffioedd) 2000

Nod y Ffurflen Gais hon yw bodloni'r Rheolau a wnaed yn unol â Deddf Osteopathiaid 1993 sy'n datgan y bydd cais i gofrestru yn ysgrifenedig ac ar y ffurflenni a bennir gan y Rheolau hyn, a bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i'r Cofrestrydd fel y gellir penderfynu ar gais i gofrestru yn unol â gofynion y Ddeddf Osteopathiaid. Mae'n **rhaid** i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi ennill Cymhwyster Cydnabyddedig.

Mae dwy ffurflen arall yn cyd-fynd â'r ffurflen hon sy'n gofyn am eirdaon i gefnogi eich cais – **geirda iechyd** a **geirda cymeriad**. Er mwyn prosesu eich cais mor gyflym â phosibl, dylech sicrhau bod y ddwy ffurflen eirda hyn yn cael eu llenwi a'u dychwelyd atom yn ddi-oed.

Atgoffir ymgeiswyr y bydd unrhyw gofnod ar y Gofrestr a gafwyd drwy dwyll yn arwain at ymchwiliad gan y Cofrestrydd a fydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Gall unrhyw gofrestriad a gafwyd drwy dwyll o'r fath arwain at eich atal ar unwaith a'ch tynnu oddi ar y Gofrestr yn y pen draw a/neu gychwyn achos troseddol.

### Datganiad Cais i Gofrestru

Rwy'n datgan bod yr holl wybodaeth a ddarperir i gefnogi fy nghais i gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn gywir ac yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall y gall y Cofrestrydd gymryd camau i wirio unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennyf i gefnogi fy nghais. Rwy'n ymwybodol efallai **na** fyddaf yn cael ymarfer fel osteopath yn y DU nes fy mod wedi cael fy nerbyn ar y Gofrestr.

Bydd unrhyw ffurflen heb ei llofnodi yn cael ei dychwelyd at yr ymgeisydd.

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

### Nodiadau ar lenwi'r ffurflen

Rhaid i dystiolaeth o feddu ar Gymhwyster Cydnabyddedig gael ei darparu gan eich darparwr addysgol osteopathig.

Ni ddylai'r un person ddarparu eich geirda cymeriad a'ch geirda iechyd.

Dylid caniatáu hyd at ddeg diwrnod gwaith i'ch cais gael ei brosesu unwaith y bydd yr holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u derbyn.

## Diogelu Data

Bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn defnyddio'r data a ddarperir gennych ar y ffurflen hon at ddibenion prosesu eich cais i gofrestru â'r Cyngor, ac at y diben o gydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 i reoleiddio'r proffesiwn osteopathi.

Gall y Cyngor rannu'r data ar y ffurflen hon â chyrff eraill sy'n ymwneud â rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol, neu orfodi'r gyfraith, gan gynnwys pan fo Cofrestrydd y Cyngor o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd, neu o'r farn bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Bydd y Cyngor yn anfon gwybodaeth atoch hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac i'ch cynorthwyo gyda'r gofynion parhaus ar gyfer cofrestru. Byddwn yn eich gwahodd hefyd i roi eich barn ar ddatblygu polisïau'r Cyngor a materion cysylltiedig.

O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor yn anfon gwybodaeth atoch gan sefydliadau cysylltiedig, sy'n berthnasol i chi fel osteopath cofrestredig.

Rydym yn gofyn am ganiatâd gan osteopathiaid hefyd i gysylltu â nhw i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil cymeradwy sy'n cefnogi'r proffesiwn fel a ganlyn (mae'r adran hon yn ddewisol):

☐ Rwy'n cytuno y gall fy manylion cyswllt e-bost gael eu darparu gan y Cyngor, i'w defnyddio gan ymchwilwyr cymeradwy'r National Council for Osteopathic Research.

## Datganiad Cais i Gofrestru

Rwy'n datgan bod yr holl wybodaeth a ddarperir i gefnogi fy nghais i gofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn gywir ac yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall y gall y Cofrestrydd gymryd camau i wirio unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennyf i gefnogi fy nghais. Rwy'n ymwybodol efallai **na** fyddaf yn cael ymarfer fel osteopath yn y DU nes fy mod wedi cael fy nerbyn ar y Gofrestr.

Bydd unrhyw ffurflen heb ei llofnodi yn cael ei dychwelyd at yr ymgeisydd.

| | |
|---|---|
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

Mae'r Cyngor wedi'i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi preifatrwydd i'w weld yn: **osteopathy.org.uk/privacy**

Gwiriwch yr holl wybodaeth argraffedig am gywirdeb a'i diwygio lle bo angen. Nodwch fod yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

## 1. Gwybodaeth bersonol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw proffesiynol[1] | | Teitl | |
| Cyfenw (os yw'n wahanol) | | | |
| Enw cyntaf | | | |
| Enwau eraill yn llawn | | | |

**Manylion cyswllt:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeiriad | | Tref | |
| | | Sir | |
| | | Cod post | |
| Rhif ffôn | | Ffôn symudol | |
| Cenedligrwydd | | E-bost | |
| Dyddiad geni | | Rhywedd | |

## 2. Addysg broffesiynol

Fel gofyniad i gofrestru, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o feddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn osteopathi.

| | |
|---|---|
| Lleoliad addysg osteopathig gychwynnol | |
| Teitl cymhwyster osteopathig sylfaenol | |
| Mis a blwyddyn ennill cymhwyster | |

## 3. Iechyd a ffitrwydd

A oes gennych chi gyflwr meddygol parhaus, naill ai corfforol neu feddyliol:

(a) a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer osteopathi, a/neu Oes ☐ Nac oes ☐

(b) sy'n gofyn am adolygiad meddygol rheolaidd ac a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol? Oes ☐ Nac oes ☐

Os ydych chi wedi ateb **Oes i unrhyw un o'r uchod**, rhowch fanylion

| |
|---|
| |

(c) Rwyf wedi cofrestru gydag Ymarferydd Meddygol Cyffredinol a fydd yn cwblhau geirda Iechyd ac yn ei ddychwelyd i'r Cyngor sy'n gofyn am adolygiad meddygol rheolaidd a gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol? Ydw ☐ Nac ydw ☐
(Gwnewch yn siŵr bod y ffurflen gyfeirio Iechyd amgaeedig wedi'i llenwi.)

Os nad ydych chi wedi cofrestru gyda meddyg teulu ac na allwch chi ddarparu geirda iechyd, cysylltwch â'r Adran Gofrestru (**student@osteopathy.org.uk**) i egluro'r amgylchiadau sy'n eich atal rhag cael geirda Iechyd wedi'i lofnodi gan eich meddyg teulu. Bydd yr Adran Gofrestru yn cynghori sut i fwrw ymlaen â'ch cais.

1 Yr enw rydych chi am gael ei ddefnyddio i'ch adnabod ar y Gofrestr ar-lein, gan eich cleifion a'ch darparwr yswiriant.

## 4. Cymeriad a chofnodion disgyblu proffesiynol

(a) Ydych chi wedi gwneud cais blaenorol i gofrestru gyda'r Cyngor? Ydw ☐ Nac ydw ☐

(b) Ydych chi wedi cofrestru ag unrhyw gorff rheoleiddio arall ar hyn o bryd? Ydw ☐ Nac ydw ☐

(c) Ydych chi wedi cofrestru ag unrhyw gorff rheoleiddio arall o'r blaen? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb Ydw i (b) neu (c) rhowch yr wybodaeth ganlynol ar daflen ar wahân:

- Enw'r corff Cofrestru / rheoleiddio
- Eich enw ar y Gofrestr / corff rheoleiddio
- Rhif cofrestru
- Dyddiad cofrestru
- Gwlad y Gofrestr / corff rheoleiddio
- Prawf o gofrestriad h.y. dolen i enw ar y Gofrestr /corff rheoleiddio
- Os nad ydych chi'n gofrestredig bellach, prawf gan gorff Cofrestru/rheoleiddio o gofrestriad blaenorol

(d) Ydych chi erioed wedi cael unrhyw ganfyddiadau disgyblu[2] yn eich erbyn yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad arall? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **Ydw i (d)** rhowch fanylion llawn gan gynnwys enw'r corff a wnaeth y canfyddiad, dyddiad y canfyddiad a'r gosb a roddwyd (os yn berthnasol)

| |
|---|
| |

(e) Ydych chi: (i) yn destun unrhyw ymchwiliadau disgyblu[2] ar hyn o bryd yn y DU neu unrhyw wlad arall, a/neu (ii) yn ymwybodol o unrhyw ymchwiliadau disgyblu sydd ar ddod neu yn y dyfodol yn y DU neu unrhyw wlad arall? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **Ydw i (e)** rhowch fanylion llawn

| |
|---|
| |

(f) Ydych chi erioed wedi cael eich cyhuddo, eich rhwymo, neu eich euogfarnu, neu wedi cael rhybudd neu gerydd am drosedd yn y DU nad yw'n cael ei "gwarchod"[3] fel y'i diffinnir gan Orchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2013) neu mewn unrhyw wlad arall? Ydw ☐ Nac ydw ☐

(g) Ydych chi'n destun unrhyw ymchwiliad gan yr hedlu neu achos troseddol yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw wlad arall ar hyn o bryd? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **Ydw i (f) neu (g)** cwblhewch y canlynol (anfonwch lythyr ategol i esbonio'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r euogfarn, rhybudd neu gerydd):

| Eich enw(au) pan gyflawnwyd y drosedd | | |
|---|---|---|
| Dyddiad | Trosedd a gwlad lle y'i cyflawnwyd | Dedfryd os o gwbl – byddwch yn benodol |
| | | |

(h) Ydych chi erioed wedi bod yn barti i achos sifil (gan gynnwys hawliadau yn sgil esgeulustod) yn ymwneud ag unrhyw ymarfer proffesiynol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych chi wedi ateb **Ydw i unrhyw un o'r uchod**, nodwch natur yr achos ac a wnaed unrhyw ddyfarniad yn eich erbyn:

| |
|---|
| |

2 Mae canfyddiadau disgyblu'n cynnwys canfyddiadau a wnaed gan reoleiddiwr, corff proffesiynol, corff addysg, tribiwnlys neu gyflogwr.
3 Mae gwybodaeth am y cwestiwn hwn yn y llyfryn 'Registering with the General Osteopathic Council ' o dan y pennawd Protected convictions and cautions.

**Gwiriad manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir:**
Fel rhan o'ch cofrestriad, mae'n ofynnol i chi gael gwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau First Advantage (a elwid gynt yn GBGroup plc) sydd wedi'i gofrestru gyda'r DBS ac sy'n gweinyddu Gwiriadau Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir ar ein rhan. Mae'r Cyngor yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan ymgeiswyr i rannu manylion cyswllt gyda First Advantage.

Os ydych chi'n dymuno defnyddio gwasanaethau First Advantage, rhowch ganiatâd ysgrifenedig i rannu eich manylion cyswllt gyda First Advantage. E-bost **student@osteopathy.org.uk**

Bydd First Advantage yn anfon e-bost atoch gyda manylion mewngofnodi i'r system wirio ar-lein. Am ragor o wybodaeth dylech gyfeirio at y llyfryn '**Cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol**'.

Ni ddylai'r gwiriad fod yn fwy na chwe mis oed o'r dyddiad cyhoeddi ar adeg eich cais i ymuno â'r Gofrestr.

Ticiwch un o'r canlynol:

a) Rwyf wedi gwneud cais am fy Ngwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir drwy First Advantage ☐

(b) Cyflawnwyd fy ngwiriad Manylach ar gyfer Gweithgaredd a Reoleiddir gan sefydliad arall ac rwy'n amgáu'r dystysgrif wreiddiol ☐

## 5. Yswiriant Indemniad Proffesiynol

Rhaid i bob osteopath sy'n ymarfer feddu ar yswiriant indemniad proffesiynol digonol. Mae'r Cyngor yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn a gall ofyn am dystiolaeth maes o law yn cadarnhau eich bod wedi'ch yswirio.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod chi'n parhau i fod ag yswiriant indemniad proffesiynol parhaus bob amser yn y dyfodol ac os fydd eich statws ymarfer yn newid e.e. os nad ydych yn ymarfer mwyach, dylech gysylltu â'r Cyngor ar unwaith fel y gellir diweddaru eich statws cofrestru ar y Gofrestr a gyda'ch darparwr yswiriant fel y gallant drefnu yswiriant ar gyfer gweithgarwch blaenorol.

☐ Rwy'n cadarnhau na fyddaf yn dechrau ymarfer fel osteopath, nes fy mod wedi cofrestru a bod gennyf yswiriant indemniad proffesiynol ar waith sy'n bodloni Rheolau Yswiriant Indemniad Proffesiynol y Cyngor. Byddaf yn anfon tystiolaeth o'm hyswiriant i'r Cyngor o'r dyddiad y byddaf yn dechrau ymarfer fel osteopath (ticiwch y blwch)

(a) Enw'r yswiriwr bwriedig:

(b) A yw yswiriant indemniad proffesiynol wedi ei wrthod i chi erioed? Ydy ☐ Nac ydy ☐

(c) Ydych chi wedi bod yn destun premiwm uwch neu a ddyfynnwyd unrhyw yswiriant indemniad proffesiynol i chi ar delerau uwch erioed? Ydw ☐ Nac ydw ☐

(d) Os ydych chi'n gwybod pam y gwrthodwyd yswiriant i chi neu pam y cafodd eich premiwm ei gynyddu, rhowch fanylion isod:

## 6. Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth bellach rydych chi'n credu sy'n berthnasol i'ch cais, neu yr hoffech chi i'r Cofrestrydd ei hystyried, nodwch yma.

## 7. Taliad

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif Adnabod Myfyriwr y Cyngor | |

**Mae'r ffi mynediad ar gyfer ymuno â Chofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol fel a ganlyn:**

**Ffi mynediad:** £320

Gellir talu eich ffi mynediad yn llawn os ydych chi'n talu gyda siec neu gerdyn debyd/credyd.

Dewiswch opsiwn isod:

A ☐ Rwy'n amgáu siec sy'n daladwy i: The General Osteopathic Council

B ☐ Trefnwch ddebyd o'm cerdyn credyd/debyd. DS Ni dderbynnir American Express

Dyddiad cychwyn os yw'n berthnasol: ____ Dyddiad dod i ben: ____ Rhif dyrodd ____

Rhif cerdyn: ____

Rhif diogelwch (y 3 digid olaf sydd wedi'u hargraffu ar gefn y cerdyn): ____

Llofnodwyd: ____ Dyddiad: ____

C ☐ A fyddech cystal â threfnu amserlen debyd uniongyrchol ar gyfer talu'r ffi gofrestru drwy ddefnyddio'r mandad debyd uniongyrchol isod. **Os byddwch chi'n dewis talu eich ffi mynediad drwy ddebyd uniongyrchol, rhowch fanylion cerdyn ar gyfer taliad cychwynnol o £33 i'w gymryd wrth i chi ymuno â'r Gofrestr. Gellir talu gweddill y ffi mynediad drwy ddebyd uniongyrchol dros gyfnod o 9 mis ar y mwyaf.**

---

Cesglir taliadau ar y 15fed diwrnod o bob mis. Pan fo'r 15fed ar benwythnos, bydd y taliad yn cael ei gasglu ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y penwythnos. Bydd y dull talu debyd uniongyrchol yn arwain at dâl ychwanegol - mae'r taliadau fel a ganlyn: Blwyddyn 1 - £10; Blwyddyn 2 yn ymarfer - £15; Cyfradd is blwyddyn 2 - £10; Blwyddyn 3 yn ymarfer £20; Cyfradd is blwyddyn 3 - £10. Mae'r taliad yn seiliedig ar weinyddu'r taliadau a cholli llog am beidio â thalu'r ffi yn llawn. Mae'r cynllun Debyd Uniongyrchol ar gael ar gyfer cyfrifon banc y DU yn unig.

Dros (nodwch nifer y taliadau) – uchafswm 9 __

Enw(au) Cyfrif ____

Cod Didoli ☐☐ – ☐☐ – ☐☐

Rhif Cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Enw a chyfeiriad post llawn eich Banc neu Gymdeithas Adeiladu

At: Y Rheolwr ____ Cyfeiriad Banc neu Gymdeithas Adeiladu

____

____ Cod post ____

DIRECT Debit

Cyfarwyddyd i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

Rhif Adnabod Cychwynnwr

**Cyfarwyddyd i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu**

A wnewch chi dalu Debydau Uniongyrchol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o'r cyfrif a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn yn amodol ar y mesurau diogelu a sicrheir gan y Gwarant Debyd Uniongyrchol.

Rwy'n deall y bydd y cyfarwyddyd hwn yn aros gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac yr anfonir manylion yn electronig i'm Banc/Cymdeithas Adeiladu.

Llofnod(ion) ____

Dyddiad .

Dylai'r Talwr ddatgysylltu a chadw'r warant hon

**Gwarant Debyd Uniongyrchol**

DIRECT Debit

- Mae'r Warant hon yn cael ei chynnig gan bob banc a chymdeithas adeiladu sy'n derbyn cyfarwyddiadau i dalu Debyd Uniongyrchol
- Os oes unrhyw newidiadau i swm, dyddiad neu amlder eich Debyd Uniongyrchol, bydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn eich hysbysu 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad y bydd y debyd yn gadael eich cyfrif neu fel y cytunir fel arall. Os ydych chi'n gofyn i'r Cyngor gasglu taliad, rhoddir cadarnhad o'r swm a'r dyddiad i chi ar adeg y cais
- Os gwneir camgymeriad wrth dalu'ch Debyd Uniongyrchol gan y Cyngor neu'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu, mae gennych chi hawl i gael ad-daliad llawn ar unwaith o'r swm a dalwyd o'ch banc neu'ch cymdeithas adeiladu
- Os ydych chi'n derbyn ad-daliad nad oes gennych chi hawl iddo, rhaid i chi ei dalu'n ôl pan fydd y Cyngor yn gofyn i chi wneud hynny.
- Gallwch ganslo Debyd Uniongyrchol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'ch banc neu gymdeithas adeiladu yn unig. Efallai y bydd angen cadarnhad ysgrifenedig.

Rhowch wybod i ni hefyd.

## **Deddf Osteopathiaid 1993** Adran 3(2)(b) Cydraddoldeb ac amrywiaeth (mae'r adran hon yn ddewisol)

Gall casglu data personol fod yn fater sensitif ac rydyn ni'n gwybod y gall deimlo'n fusneslyd weithiau, ond rydyn ni am sicrhau bod y gwaith a wnawn a'n prosesau yn deg ac yn rhydd o wahaniaethu. Dim ond os bydd osteopathiaid yn ein helpu i ddiweddaru'r data sydd gennym am eu nodweddion gwarchodedig y gallwn ni wneud hyn. Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth ddefnyddiol am amrywiaeth yn y proffesiwn o gymharu â chymdeithas yn ei chyfanrwydd, drwy gasglu data mwy cynhwysfawr am nodweddion gwarchodedig osteopathiaid gallwn sicrhau nad yw addysg osteopathig, Safonau, Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac Addasrwydd i Ymarfer yn cael unrhyw ganlyniadau anfwriadol nac yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

Dim ond er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol i wneud y canlynol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal
- meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig penodol a'r rhai sydd hebddynt.

Nid oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i gyhoeddi'r wybodaeth hon ar y Gofrestr ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ei rhannu â thrydydd parti. Dim ond at y dibenion a amlinellir uchod y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan staff y Cyngor ac i'n helpu i deilwra ein negeseuon fel eu bod yn diwallu anghenion pob osteopath.

### Anabledd

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn diffinio bod person yn anabl os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n sylweddol ac yn hirdymor (h.y. wedi para neu y disgwylir iddo bara o leiaf 12 mis) gydag effeithiau andwyol ar ei allu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gan ystyried hyn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson ag anabledd?

Nac ☐

ydw ☐

Ydw ☐

Gwell gen i beidio â dweud

### Tarddiad ethnig

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ☐

Du neu Ddu Prydeinig ☐

Cefndir Cymysg Ethnig ☐

Gwyn neu Wyn Prydeinig ☐

Grŵp Ethnig Arall ☐

Gwell gen i beidio â dweud ☐

### Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Bangladeshaidd ☐
- Indiaidd ☐
- Pacistanaidd ☐
- Tsieineaidd ☐
- Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall (nodwch os dymunwch)

### Du neu Ddu Prydeinig

- Affricanaidd ☐
- Du Caribïaidd a Gwyn ☐
- Caribïaidd ☐
- Unrhyw Gefndir Du Arall (nodwch os dymunwch)

### Cefndir Ethnig Cymysg

- Gwyn ac Asiaidd ☐
- Gwyn a Du Affricanaidd Gwyn ☐
- a Du Caribïaidd ☐
- Gwyn a Tsieineaidd ☐
- Unrhyw gefndir ethnig Cymysg neu Aml-ethnig arall (nodwch os dymunwch)

### Gwyn neu Gwyn Prydeinig

- Prydeinig ☐
- Sais/Saesnes ☐
- Gwyddelig ☐
- Cymro/Cymraes ☐
- Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon ☐
- Albanwr/Albanes ☐
- Sipsi/teithiwr ☐
- Pwyleg ☐
- Roma ☐
- Unrhyw gefndir Gwyn Arall (nodwch os dymunwch)

## Grŵp Ethnig Eraill

Pa grŵp ydych chi'n uniaethu ag ef? Ticiwch un blwch. Rhestrir yr opsiynau yn nhrefn yr wyddor.

- Arabaidd ☐
- Ffilipinaidd ☐
- Unrhyw gefndir Ethnig arall (nodwch os dymunwch) ____________

## Crefydd

Pa grŵp ydych chi'n uniaethu ag ef? Ticiwch un blwch. Rhestrir yr opsiynau yn nhrefn yr wyddor.

- Bwdhydd ☐
- Cristion ☐
- Hindŵ ☐
- Iddewig ☐
- Mwslim ☐
- Pagan ☐
- Sikh ☐
- Ysbrydol ☐
- Dim crefydd neu gred ☐
- Unrhyw grefydd neu gred arall, nodwch (nodwch os dymunwch) ____________
- Gwell gen i beidio â dweud ☐

## Cyfeiriadedd rhywiol

Pa grŵp ydych chi'n uniaethu ag ef? Ticiwch un blwch. Rhestrir yr opsiynau yn nhrefn yr wyddor.

- Deurywiol ☐
- Hoyw/Lesbiaidd ☐
- Heterorywiol /syth ☐
- Arywiol ☐
- Panrywiol ☐
- Cwiar ☐
- Gwell gen i hunan-ddisgrifio (nodwch os dymunwch) ____________
- Gwell gen i beidio â dweud ☐